GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Ionawr 2005

**Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 108**

**Mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Ionawr 2005

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0794. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0793. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0792.


**National Institute for Clinical Excellence**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk



ISBN: 1-84257-863-4

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Ionawr 2005
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw



© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Ionawr 2005. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar fewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn o roi mewnblaniad yn ei le yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ddisgrifio’r weithdrefn yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer byddardod llwyr sydd wedi digwydd o ganlyniad i niwed penodol i’r nerfau (gweler dudalen 5).

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd ac o ba mor dda y maent yn gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a’r cleifion a’r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

# Ynglŷn â mewnblaniad clywedol yng nghoesyn yr ymennydd

Caiff signalau sain eu cludo o’r glust fewnol i’r ymennydd drwy’r nerf cynteddgogyrnol. Os caiff y nerf hwn ei niweidio yn ystod llawdriniaeth neu oherwydd tiwmor, aiff y glust yn fyddar. Os effeithir ar y nerfau sy’n rhedeg o’r ddwy glust i’r ymennydd, aiff y person yn hollol fyddar. Ni fydd cymhorthion clywed na mewnblaniadau cogyrnol o gymorth.

Gyda mewnblaniad cogyrnol, caiff electrodau eu mewnblannu yn y glust fewnol. Bydd y rhain yn codi signalau o brosesydd sain a gaiff ei wisgo y tu allan i’r glust neu a gaiff ei osod ar ddillad, a’u hanfon i’r nerf cynteddgogyrnol. Nid ydynt yn gweithio ar gyfer y grŵp hwn o gleifion am na chaiff y signalau eu hanfon yn ddigon pell i mewn i osgoi’r nerf sydd wedi ei niweidio.

Mae’r mewnblaniad clywedol yng nghoesyn yr ymennydd yn defnyddio technoleg debyg, ond rhoddir yr electrodau yn y rhan o’r ymennydd sy’n prosesu signalau sain (er mwyn osgoi’r nerf). Fel gyda’r mewnblaniad cogyrnol, caiff y sain ei throsi yn signalau trydanol gan brosesydd sain a gaiff ei wisgo y tu allan i’r glust, a dyma’r signalau a godir gan yr electrodau yn yr ymennydd.

Os achosir cyflwr y person gan diwmor, caiff hwn yn aml ei dynnu ar yr un adeg ag y caiff y mewnblaniad ei osod. Mae’r llawdriniaeth yn golygu tynnu darn bach o asgwrn o’r tu ôl i’r

glust fel y gall y llawfeddyg roi'r mewnblaniad yn y lle penodol yng nghoesyn yr ymennydd (mae coesyn yr ymennydd yng ngwaelod yr ymennydd – dyma'r ardal sy'n cysylltu â llinyn y cefn).

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn un astudiaeth a ddilynodd yr hyn a ddigwyddodd i 88 o bobl a gafodd fewnblaniad clywedol yng nghoesyn yr ymennydd, roedd 75 o bobl yn gallu clywed ychydig pan oedd y ddyfais yn gweithio. Mewn astudiaeth arall, roedd 51 allan o 54 o bobl yn clywed ychydig ar ôl iddynt gael y llawdriniaeth.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd un arbenigwr mai canlyniadau annibynadwy a roddai mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd.

# Risgiau a phroblemau posibl

## Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

O'r astudiaethau, y prif broblemau yn dilyn llawdriniaeth oedd:

- hylif yr ymennydd yn gollwng (sef yr hylif sy'n amgylchynu'r ymennydd a llinyn y cefn) – digwyddodd hyn i 2 allan o 61 o bobl
- llid yr ymennydd (lle mae leinin yr ymennydd yn mynd yn llidiog) – digwyddodd hyn i 1 allan o 61 o bobl
- ceulad gwaed ar yr ysgyfaint (y term meddygol yw emboledd ysgyfeiniol) – digwyddodd hyn i 1 allan o 54 o bobl

Mewn un astudiaeth, dywedodd rhai cleifion iddynt deimlo merwindod yn eu corff pan oedd y mewnblaniad yn ei le. Dywedodd astudiaeth arall nad oedd unrhyw broblemau difrifol na dwys gyda theimladau yn y corff.

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Rhestrodd yr arbenigwyr y canlynol fel problemau posibl: niwed i nerfau eraill cyfagos, ceulad gwaed y tu mewn i'r benglog neu rwystr yn y cyflenwad gwaed i goesyn yr ymennydd, llid yr ymennydd, a haint o amgylch y mewnblaniad.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar fewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd. Mae wedi argymell y dylai meddygon, wrth ddefnyddio mewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd ar gyfer byddardod llwyr a achoswyd gan niwed i'r nerf cynteddgogyrnol, sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r weithdrefn

- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Mae NICE hefyd wedi argymell os yw person am gael y weithdrefn, mai dim ond tîm llawfeddygol sydd â phrofiad ohoni ddylai ei chynnal.

## Sylwadau eraill gan NICE

Dim ond ar gyfer nifer fach o bobl y mae'r weithdrefn yn addas, gan fod niwed i'r nerf cynteddgogyrnol yn anghyffredin. Hyd yn hyn, dim ond nifer fach o bobl yn y DU sydd wedi cael y weithdrefn.

Mae angen gwybodaeth hirdymor am ba mor dda y mae'r mewnblaniadau yn gweithio a'u diogelwch. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd gan fod y weithdrefn yn newydd.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig mewnblaniad clywedol i chi yng nghoesyn yr ymennydd. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau cael mewnblaniad clywedol yng nghoesyn yr ymennydd cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

# Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar fewnblaniadau clywedol yng nghoesyn yr ymennydd ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG108guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0792. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau yn ymwneud â'r clyw, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Ionawr 2005